PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD YNGLŶN Â CHYNLLUN HEDDLU A THROSEDD Y COMISIYNYDD AR GYFER GOGLEDD CYMRU

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol Panel yr Heddlu a Throsedd a gynhwysir yn Adrannau 28(3)(a) a (b) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throsedd

Yn unol ag Adran 5 y Ddeddf, mae'n ofynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd gyflwyno Cynllun Heddlu a Throsedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo dderbyn y swydd ac o fewn y flwyddyn ariannol y cynhaliwyd etholiad cyffredin Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Mae Cynllun yr Heddlu a Throsedd yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer tymor pedair blynedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Adolygodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddrafft Cynllun yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru yn ei gyfarfodydd ar 31 Ionawr 2017 a 13 Mawrth 2017 o dan Adran 28 (3)(a) y Ddeddf.

Cynhaliwyd ymgynghoriad gydag Awdurdodau Lleol, Partneriaid Statudol, y Trydydd Sector a'r gymuned fusnes. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i geisio safbwyntiau ynglŷn â'r hyn yr oedd y cyhoedd yn eu nodi fel blaenoriaethau ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Yng nghyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd ar 31 Ionawr 2017, gofynnwyd i'r Comisiynydd ystyried ychwanegu pumed blaenoriaeth yn ymwneud â Phlismona Cymdogaeth /Cymunedol, a fyddai'n gymorth i ddarparu gwasanaeth gwell gan yr heddlu a byddai mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel ac â hyder yn yr heddlu.

Yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd yn y cyfarfod, roedd y Comisiynydd wedi cynnwys pumed blaenoriaeth yn ymwneud â Darparu Cymdogaethau sy'n fwy Diogel.

Croesawodd Panel yr Heddlu a Throsedd yr ychwanegiad hwn ac fe gefnogwyd Cynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd.

ARGYMHELLION:

Yn unol â dyletswydd statudol Panel yr Heddlu a Throsedd o dan Adran 28 (3)(a) y Ddeddf, mae Panel yr Heddlu a Throsedd yn cefnogi'r Comisiynydd i gyflwyno Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn unol ag Adran 5(1) y Ddeddf.

22 Mawrth 2017